

Cronfa Cymunedau'r Arfordir



Coastal Communities Fund



Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran
Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau
Datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

Arweiniad ar fesur
canlyniadau economaidd

1. Trosolwg	3
1.1 Cyflwyniad	3
1.2 Cefndir	3
1.3 Llwybrau i Effaith [Mesur Canlyniadau eich Prosiect]	3
1.4 Fframwaith Dangosyddion CCA	4
2. Allbynnau CCA	6
2.1 Cyflwyniad	6
2.2 Arweiniad ar Allbynnau Busnes	7
2.3 Arweiniad ar Allbynnau Twristiaeth	8
2.4 Arweiniad ar Allbynnau Sgiliau	9
2.5 Arweiniad ar Allbynnau Isadeiledd	10
2.6 Arweiniad ar Allbynnau Amgylcheddol	11
2.7 Arweiniad ar Allbynnau Adeiladu Gallu	12
2.8 Arweiniad ar Allbynnau Cyd-gyllid	13
3. Canlyniadau CCA	14
3.1 Cyflwyniad	14
3.2 Swyddi wedi'u Creu (Uniongyrchol)	14
3.3 Swyddi wedi'u Creu (Anuniongyrchol)	15
3.4 Swyddi wedi'u Diogelu	15
3.5 Awgrymiadau ar gyfer Mesur Cyflogaeth	16
Atodiad 1: Cyhoeddiadau Defnyddiol	17
Atodiad 2: Ffynonellau Gwybodaeth Economaidd	18

1. Trosolwg

1.1 Cyflwyniad

Cynhyrchwyd yr arweiniad hwn i gynorthwyo ymgeiswyr wrth baratoi eu ceisiadau manwl (Cam 2) am gefnogaeth ariannol gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir.

Mae'n rhoi arweiniad ar adnabod, asesu a monitro potensial effaith economaidd prosiectau sy'n defnyddio Fframwaith Dangosyddion y bydd prosiectau unigol yn cael eu harfarnu yn ei erbyn.

1.2 Cefndir

Mae Cronfa Cymunedau'r Arfordir (CCA) yn rhaglen DU gyfan sy'n anelu at annog datblygiad economaidd cymunedau arfordirol y DU trwy ddarparu ariannu er mwyn iddynt greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy.

Y canlyniad sengl y mae'r rhaglen yn anelu at ei gyflawni yw cyflogaeth:

“bydd cymunedau'r arfordir yn profi adfywio a thwf economaidd trwy brosiectau sy'n creu swyddi cynaliadwy yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac yn diogelu swyddi cyfredol”.

Mae Cronfa Cymunedau'r Arfordir yn anelu at gyflwyno twf economaidd, sy'n deillio o greu neu ddiogelu cyflogaeth.

Mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol, mae'n hanfodol mesur a meintiolir hyn y mae prosiectau'n ei wneud ac ar ben hynny, faint o bobl fydd yn elwa o'r prosiect, pa mor effeithiol y mae mudiadau wrth gyflwyno'r prosiect a deall y gwerth a'r gwahaniaeth a ddaw yn sgil y prosiect yn y gymuned leol.

Felly bydd y dystiolaeth rydym yn chwilio amdani'n:

- eich helpu chi a ni i ddeall arwyddion newid a thracio cynnydd tuag at gyflawni twf economaidd;
- eich helpu chi i ddarparu asesiad cadarn o ddatblygiad economaidd a'r potensial am dwf;
- eich helpu i wybod p'un a yw eich prosiect yn gwneud y gwahaniaeth a ddymunwch ai beidio;

- dysgu o'ch prosiect er mwyn i ni rannu eich profiad gyda grwpiau a noddwyr prosiect perthnasol eraill, ac
- adrodd i'r llywodraeth a budd-ddeiliaid eraill ar effaith economaidd Cronfa Cymunedau'r Arfordir.

Rydym yn awyddus i ddeall y gwahaniaeth y bydd eich prosiect yn ei wneud i ddatblygu economaidd ehangach. Gan hynny, mae'r rhaglen CCA wedi datblygu pecyn o ddangosyddion allbwn a chanlyniad ac rydym yn gofyn i chi ystyried sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at y rhain, ym mha ffordd ac i ba raddau.

Yn ogystal â deall yr effaith botensial ar ddechrau'r prosiect, mae gennym ddi-ddordeb mewn sut mae'n cyflwyno'n ymarferol. Gan hynny byddwn yn gofyn i chi fonitro ac adrodd am gynnydd yn erbyn y fframwaith dangosyddion dros fywyd y rhaglen CCA.

1.3 Llwybrau i Effaith [Mesur canlyniadau eich prosiect]

Wrth feddwl am y gwahaniaeth a allai ddod yn sgil eich prosiect, gallai fod yn ddefnyddiol meddwl am ymagwedd “Model Rhesymeg” at sut mae prosiect yn cyflwyno canlyniadau terfynol (buddion). Yr ymagwedd arferol yw meddwl am y camau canlynol yn y broses:

- ▶ **Cam 1:** Mae angen adnoddau/mewnbynnau i ariannu a chyflwyno prosiect [**Mewnbynnau**];
- ▶ **Cham 2:** Pan fydd gennych fynediad i adnoddau, gallwch eu defnyddio nhw i brynu neu ariannu ystod o weithgareddau [**Gweithgareddau**];
- ▶ **Cham 3:** Os cyflwynir gweithgareddau cynlluniedig, gallwch gynhyrchu buddion neu effeithiau ar unwaith ynghyd â chanlyniadau cynlluniedig [**Allbynnau**]; a
- ▶ **Cham 4:** Os cyflawnir yr allbynnau cynlluniedig, fe ddaw swyddi newydd neu wedi'u diogelu yn sgil yr ymyrraeth [**Canlyniad**].

Darperir dwy enghraifft isod.





Prosiect cefnogi busnes (refeniw)

- ▶ **Mewnbwn:** Darperir ariannu ar gyfer cefnogaeth cynllunio busnes ar gyfer cychwyn busnesau;
- ▶ **Gweithgaredd:** Cyflwynir cyfres o sesiynau hyfforddi i unigolion i'w helpu i ddatblygu cynllun busnes;
- ▶ **Allbwn:** Mae canran o unigolion yn cychwyn busnes newydd o ganlyniad i'r gefnogaeth a
- ▶ **Canlyniad:** O ganlyniad i gychwyn y busnes maen nhw'n cyflogi staff newydd, sy'n creu twf economaidd.

Prosiect isadeiledd twristiaeth (cyfalaf)

- ▶ **Mewnbwn:** Darperir ariannu i dalu am uwchraddio ac estyn llwybr arfordirol;
- ▶ **Gweithgaredd:** Darperir cyfres o waith ar lwybrau, arwyddion, meysydd parcio a byrddau dehongli;
- ▶ **Allbwn:** Mae nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r llwybr yn codi, gan arwain at gynnydd yng ngwariant ymwelwyr lleol; a
- ▶ **Chanlyniad:** O ganlyniad i'r cynnydd mewn gwariant mae busnesau twristiaeth lleol yn cyflogi mwy o staff, gan gynhyrchu twf economaidd.

Gellir gweld rhesymeg yn yr enghraifft, gydag un cam yn arwain i'r llall ond gyda nhw oll yn anelu at gyflawni canlyniadau terfynol (y newid go iawn a ddaw yn sgil y prosiect). Amlygir enghraifft o'r ymagwedd Model Rhesymeg hon isod.

	Mewnbynnau I gyflawni ein hamcanion mae angen yr adnoddau a ganlyn arnom
	Gweithgareddau I gyflawni'r allbynnau gofynnol mae angen i ni gyflwyno'r gweithgareddau a ganlyn
	Allbynnau Ar ôl eu cwblhau, disgwyliwn y bydd gan y gweithgareddau yr effeithiau uniongyrchol a ganlyn
	Canlyniadau Disgwyliwn y bydd yr allbynnau hyn yn arwain at y buddion tymor hwy a ganlyn

Mae'r uchod er eglurhad yn unig, i ddangos sut rydym yn asesu agweddau datblygu economaidd y prosiectau a ariannwn. Yn achos eich cais Cam 2, rydym yn edrych ar y rhannau gwahanol o'r broses i ddeall canlyniadau tebygol cefnogaeth CCA i'ch prosiect.

Mae'r arweiniad fframwaith dangosyddion CCA yn berthnasol dim ond i gamau 3 a 4 yn y model rhesymeg - canlyniadau ac allbynnau.

1.4 Fframwaith Dangosyddion CCA

Mae'r ffurflen gais Cam 2 yn cynnwys ystod o ddangosyddion canlyniad ac allbwn y bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth yn eu herbyn.

Mae'n ofynnol i bob prosiect CCA ddangos canlyniadau cyflogaeth, felly mae angen i chi bennu o leiaf un dangosydd yn y rhan hon o'r ddewislen (gweler Adran 3). Dylech bennu dangosyddion ar gyfer yr allbynnau a fydd yn arwain at ganlyniadau eich prosiect (gweler Adran 2).

Byddwn yn monitro eich cynnydd yn erbyn yr allbynnau a dangosyddion hyn yn flynyddol yn ystod bywyd y rhaglen CCA.

Cyflwynir y dangosyddion allbwn a chanlyniad yn y tabl a ganlyn.

Dewislen Dangosyddion CCA

Dangosydd canlyniad	Diffiniadau	Cyfrif
Swyddi	Swyddi uniongyrchol wedi'u creu	Nifer CaALI
	Swyddi wedi'u diogelu	Nifer CaALI
	Swyddi anuniongyrchol wedi'u creu	Nifer CaALI
	Swyddi adeiladu (Blynnyddoedd Person)	Nifer CaALI
Dangosyddion allbwn	Diffiniadau	Cyfrif
Busnes	Busnesau preifat wedi'u cefnogi	Nifer
	Cynnydd mewn gwerthiannau busnes	£ gwerth
	Busnesau newydd wedi'u dechrau	Nifer
	Mentrau cymdeithasol wedi'u cefnogi a'u cychwyn	Nifer
Twristiaeth	Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr	Nifer
	Gwariant gan ymwelwyr newydd	£ gwerth
	Creu cyfleusterau twristiaeth newydd	Nifer
	Busnesau twristiaeth newydd wedi'i gychwyn	Nifer
	Digwyddiadau twristiaeth newydd wedi'u cefnogi	Nifer
	Docfeydd marina newydd wedi'u creu	Nifer
Sgiliau	Hyfforddeion analwedigaethol	Nifer wedi dechrau
	Prentisiaethau wedi'u creu	Nifer wedi dechrau
	Hyfforddeion galwedigaethol	Nifer wedi dechrau
	Hyfforddeion yn ennill cymwysterau	Nifer wedi'u sicrhau
	Hyfforddeion yn cael swyddi	Nifer wedi'u sicrhau
Isadeiledd	Tir llwyd wedi'i adfer/ddatblygu	Hectarau
	Arwyneb llawr newydd neu wedi'i uwchraddio	Metrau sgwâr
	Parth cyhoeddus wedi'i greu neu ei wella	Metrau sgwâr
	Prosiectau diriaethol wedi'u cefnogi	Nifer
Amgylcheddol	Prosiectau cludiant cynaliadwy	Nifer
	Prosiectau amddiffynfeydd llifogydd/arfordirol	Nifer
	Prosiectau ynni adnewyddadwy	Nifer
Adeiladu gallu	Unigolion wedi'u cefnogi	Nifer
	Mudiadau wedi'u cefnogi	Nifer
	Prosiectau cymunedol wedi'u cefnogi	Nifer
Cyd-gyllid	Ariannu sector cyhoeddus	Gwerth
	Ariannu sector preifat	Gwerth
	Ariannu trydydd sector	Gwerth

2. Allbynnau CCA

Allbynnau yw'r trydydd cam yn y Model Rhesymeg h.y. buddion uniongyrchol eich prosiect.

2.1 Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Dangosyddion yn darparu ystod o allbynnau posib a allai ddeillio o'r amrywiaeth o brosiectau y mae CCA yn debygol o'u cefnogi.

Er bod y rhestr o allbynnau posib yn gynhwysfawr, mae'n bosib y bydd eich prosiect yn cynhyrchu allbynnau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddewislen. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cofnodi yn eich cais er mwyn deall yr ystod lawn o fuddion y mae eich prosiect yn debygol o'u cyflawni.

Gan hynny byddem yn gofyn i chi ystyried a chofnodi'r holl allbynnau perthnasol yn ofalus yn eich cais gan y bydd yn ein helpu i ddeall eich prosiect ac i ba raddau y caiff eich canlyniadau cyflogaeth terfynol (fel y'u trafodir yn Adran 3) dros fywyd y prosiect.

Disgrifir pob un o'r dangosyddion allbwn yn fanwl dros y tudalennau a ganlyn. Dylid cynnwys y manylion ychwanegol y gofynnwyd amdanynt ar gyfer pob dangosydd yn eich cais.

Mae'n bwysig cydnabod bod busnesau'n debygol o fod â mwy nag un allbwn sengl, felly er enghraifft byddai prosiect sy'n cefnogi cwmni i ailddatblygu adeilad segur i fod yn fragdy gyda chanolfan ymwelwyr yn meddu ar allbynnau'n cwmpasu:

- **busnes:** cefnogaeth ar gyfer MBaCh (y bragdy);
- **twristiaeth:** darparu canolfan ymwelwyr newydd a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant;
- **isadeiledd:** darparu 2,000 tr. sgw. o eiddo busnes; a'r
- **amgylchedd:** uwchraddio adeilad segur.

Mae'r prosiect hefyd yn debygol o feddu ar allbynnau **trosoledd** h.y. buddsoddiad gan y busnes neu gefnogwyr eraill y prosiect.

Yn yr achos hwn byddai'r canlyniadau cyflogaeth yn deillio o'r staff uniongyrchol a gyflogwyd yn y bragdy a'r swyddi anuniongyrchol a grëwyd gan gynnydd yng ngwariant gan ymwelwyr.

2.2 Arweiniad ar allbynnau busnes

Mae darparu cefnogaeth i fusnesau a mentrau cymdeithasol yn llwybr pwysig i greu canlyniadau cyflogaeth terfynol. Wrth ddewis 'allbwn busnes' dylech ystyried effeithiau eich prosiect ar berfformiad busnes trwy, er enghraifft, cyflwyno gweithgareddau a allai gynnwys: gwybodaeth a chyingor ar fusnes, cyngor ariannol, cefnogaeth fusnes ymarferol, help gyda chynllunio busnes, etc.

Dangosyddion busnes

Dangosydd	Disgrifiad	Enghreifftiau
Busnesau preifat wedi'u cefnogi	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Gellir cefnogi busnesau'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ▶ Cyfrif syml o'r nifer gwirioneddol a gefnogir a/neu amcangyfrif o'r nifer a gaiff eu cefnogi'n anuniongyrchol ▶ Byddai'n ddefnyddiol gwybod ym mha sector y mae'r busnesau a gefnogir yn gweithredu 	<p>Gallai cefnogaeth uniongyrchol olygu defnyddio'r grant i ddarparu cefnogaeth farchnata i fusnesau sydd wedi'u lleoli mewn lleoliad twristiaeth arfordirol. Byddai pob busnes y darparwyd cefnogaeth farchnata ar ei gyfer yn cael ei gyfrif fel busnes unigol wedi'i gefnogi.</p> <p>Gallai cefnogaeth anuniongyrchol fod pan fydd prosiect yn datblygu llwybr arfordirol newydd sy'n dod ag ymwelwyr ychwanegol i'r ardal. Yn yr achos hwn dylech amcangyfrif nifer y busnesau twristiaeth lleol a fydd yn elwa.</p>
Cynnydd mewn gwerthiannau busnes	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Gellir cyflawni cynnydd mewn gwerthiannau'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ▶ Cyfrif syml o'r cynnydd gwirioneddol pryd mae'r data ar gael ▶ Pan fyddwch yn defnyddio cynnydd mewn gwerthiannau busnes fel procsi ar gyfer sefydlu swyddi newydd, mae'n rhaid datgan yr holl dybiaethau a thystiolaeth yn glir. 	<p>Trwy gynnydd mewn gwerthiannau busnes y mae busnesau'n debygol o hurio staff newydd (gan arwain at ganlyniadau cyflogaeth terfynol).</p> <p>Pan gefnogir busnes unigol cydnabyddir y gall gwybodaeth fod ar gael, ond ni fydd hyn yn bodoli ar gyfer busnesau a gefnogir yn anuniongyrchol.</p>
Busnesau newydd wedi'u cychwyn	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Gellir cychwyn busnesau naill ai o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i'ch prosiect ▶ Cyfrif syml o'r nifer gwirioneddol wedi'u cychwyn a/neu amcangyfrif o'r nifer a gaiff eu cychwyn yn anuniongyrchol ▶ Byddai'n ddefnyddiol gwybod ym mha sector y mae'r busnesau'n gweithredu 	<p>Gallai busnesau uniongyrchol ddeillio o raglen cychwyn busnesau wedi'i theilwra lle mai hyn oedd ei phrif amcan.</p> <p>Gallai busnesau cychwynnol anuniongyrchol ddigwydd o ganlyniad i'r prosiect. Er enghraifft, gallai datblygu cyfleuster pier greu cyfle ar gyfer busnes i sefydlu bwyty newydd.</p>
Mentrau cymdeithasol wedi'u cefnogi a'u cychwyn	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Defnyddiwch ddiffiniadau sy'n debyg i'r rhai ar gyfer busnesau wedi'u cefnogi a'u cychwyn ▶ Mae enghreifftiau tebyg yn ddilys hefyd 	<p>Mae mentrau cymdeithasol yn masnachu ym mhob marchnad, gan werthu nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr unigol, awdurdodau lleol, y llywodraeth a busnesau preifat. Mae mentrau cymdeithasol yn bodoli i wneud elw fel unrhyw fusnes sector preifat, ond mae unrhyw elw a gwarged bob amser yn cael ei ailfuddsoddi at ddibenion cymdeithasol ac amgylcheddol.</p>

2.3 Arweiniad ar allbynnau twristiaeth

Mae'n debygol y bydd y nifer o brosiectau a ariennir gan CCA'n canolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi'r sector twristiaeth. Yr agwedd allweddol yw y bydd cynyddu/diogelu nifer yr ymwelwyr yn arwain at fwy o wariant a fydd, yn ei dro, yn arwain at swyddi newydd. Bydd allbynnau twristiaeth yn deillio o ystod o weithgareddau megis darparu atyniadau ymwelwyr newydd, gwella isadeiledd neu gefnogi busnesau.

Dangosyddion twristiaeth

Dangosydd	Disgrifiad	Enghreifftiau
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Mae hwn yn gyfrif syml o faint o ymwelwyr ychwanegol y mae'r prosiect yn debygol o'u denu ▶ Bydd y cynnydd yn uniongyrchol ac mae'n rhaid medru ei briodoli i'r prosiect ▶ Bydd gwybodaeth ychwanegol yn nodi o ble mae'r twristiaid wedi dod yn helpu 	<p>Mae'n debygol mai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr fydd y nod allweddol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth.</p> <p>Bydd mwy o ymwelwyr yn arwain at fwy o wariant, a fydd yn symblu cyflogaeth.</p> <p>Gellir cyflawni cynnydd yn nifer yr ymwelwyr os yw'r prosiect yn creu/datblygu/gwella atyniadau neu'n sefydlu digwyddiadau.</p>
Gwariant gan ymwelwyr newydd	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Mae hyn yn gyfrif o'r gwariant tebygol newydd sy'n deillio o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr ▶ Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos gan y byddant yn cynhyrchu lefelau gwariant gwahanol. 	<p>Fel procsi cyffredinol, mae angen tua £50,000 o wariant newydd gan ymwelwyr y flwyddyn i gefnogi un swydd twristiaeth.</p> <p>Wrth amcangyfrif gwariant newydd mae'n bwysig bod yn eglur ynghylch ymweliadau dydd neu dros nos ac amlinellu eich tybiaethau'n glir gyda thystiolaeth gefnogol.</p>
Creu cyfleusterau twristiaeth newydd	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif o nifer y cyfleusterau sydd i'w creu gyda'r grant CCA ▶ Gwahaniaethu rhwng cyfleusterau newydd sbon ac uwchraddio rhai sydd eisoes yn bodoli 	<p>Er enghraifft, mae'r dangosydd hwn yn cynnwys atyniadau i ymwelwyr, uwchraddio pier, canolfan ddehongli newydd, etc.</p> <p>Mae'n ymwneud â phrosiectau lle defnyddiwyd y grant CCA i gefnogi datblygiad diriaethol cyfleuster. Dylid cyfrif cefnogaeth ar gyfer y busnes ar wahân.</p>
Busnesau twristiaeth newydd wedi'u cychwyn	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Gellir cychwyn busnesau naill ai o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i'ch prosiect ▶ Cyfrif syml o'r nifer gwirioneddol wedi'u cychwyn a/neu amcangyfrif o'r nifer a gaiff eu cychwyn yn anuniongyrchol 	<p>Gallai cychwyn busnesau'n uniongyrchol ddeillio o raglen cychwyn busnesau twristiaeth wedi'i theilwra lle mai hyn oedd ei phrif amcan.</p> <p>Gallai busnesau cychwynnol anuniongyrchol ddeillio o ddatblygu docfeydd hwyllo newydd, gan greu cyfle i gwmni cyflenwi lleol agor wrth ochr y cyfleuster.</p>
Digwyddiadau twristiaeth newydd wedi'u cefnogi	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif o nifer y digwyddiadau sydd i'w creu gyda'r grant CCA ▶ Gwahaniaethu rhwng digwyddiadau newydd sbon ac uwchraddio/ parhau â rhai sydd eisoes yn bodoli 	<p>Mae hyn yn gysylltiedig â chefnogaeth i'r digwyddiad megis marchnata, trefnu, rheoli.</p> <p>Dylid ei gyfrif pan mai prif ddiben y prosiect yw cefnogi digwyddiad yn hytrach na busnes.</p>
Docfeydd marina newydd wedi'u creu	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif docfeydd newydd wedi'u creu ▶ Gwahaniaethu rhwng sefydlog ac arnawf ▶ Gwahaniaethu rhwng uniongyrchol ac anuniongyrchol 	<p>I adlewyrchu'r nifer penodol o brosiectau marina a phrosiectau cysylltiedig.</p> <p>Gwahaniaethu rhwng docfeydd arnawf a sefydlog a maint y lle i fadau.</p>

2.4 Arweiniad ar allbynnau sgiliau

Diffinnir allbynnau sgiliau fel unrhyw ymyrraeth sydd â'r nod o gynyddu sgiliau personol neu dechnegol unigolyn, cyflwyno cefnogaeth ar gyfer cymwysterau ffurfiol, cyflwyno cefnogaeth i gynyddu ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o gyfleoedd datblygu personol, etc.

Mae allbynnau sgiliau'n bwysig gan eu bod yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth unigolion. Mae'n hollbwysig i wahaniaethu rhwng prosiectau sgiliau a arweinir gan raglenni sy'n rhai generig e.e. wedi'u harwain gan fudiad neu goleg hyfforddi pan na warentir swydd, a phrosiectau a arweinir gan gyflogwyr pan fydd yr hyfforddai mewn cyflogaeth neu pan warentir cyflogaeth.

Dangosyddion sgiliau

Dangosydd	Disgrifiad	Enghreifftiau
Hyfforddeion analwedigaethol	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Nifer yr unigolion sy'n derbyn hyfforddiant analwedigaethol ▶ Rhestru'r cwrs/hyfforddiant sydd i'w ddarparu ▶ Arweinir gan y rhaglen neu'r cyflogwr 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys cyrsiau gofal cwsmeriaid cyffredinol, gweithio fel tîm, etc.</p> <p>Yn debygol o fod yn unigol/ fyr a heb gael eu hailadrodd</p> <p>Unrhyw gefnogaeth nad yw'n arwain at gymhwyster cydnabyddedig</p>
Prentisiaethau wedi'u creu	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif nifer y prentisiaethau ffurfiol newydd ▶ Lefel/math y prentisiaethau ▶ Rhestru fframweithiau 	<p>Mae ystod o wahanol fathau o brentisiaethau ar draws pedair cenedl y DU.</p> <p>Mae prentis yn derm generig a dylid darparu gwybodaeth am y math o gwrs/ gymhwyster a fydd yn deillio o'r gefnogaeth.</p>
Hyfforddeion galwedigaethol	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif nifer yr hyfforddeion sy'n dechrau ar gyrsiau ▶ Rhestru'r cymwysterau sydd i'w cyflawni ▶ Arweinir gan y rhaglen neu'r cyflogwr 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys unrhyw gwrs/ hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster ffurfiol.</p> <p>Gweler y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.</p> <p>Gallai enghreifftiau gynnwys NVQ/SVQ, HNC/D etc.</p>
Hyfforddeion yn ennill cymwysterau	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif yr unigolion a fydd yn ennill cymwysterau yn ystod y cyfnod CCA ▶ Manylion y cymwysterau a gaiff eu hennill 	<p>Bydd y dangosydd hwn yn cywain gwybodaeth am gymwysterau a enillwyd yn ystod cyflwyniad CCA, ond bydd hefyd yn adnabod ble y gellir sicrhau cymwysterau yn dilyn diwedd y cyfnod ariannu.</p> <p>Dylid darparu manylion cymwysterau yn y dyfodol.</p>
Hyfforddeion yn cael swyddi	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif yr unigolion a fydd yn ennill cyflogaeth yn ystod y cyfnod CCA 	<p>Mae'n rhaid darparu tystiolaeth gefnogol, er enghraifft trwy ddangos bod galw am y sgiliau a bod swyddi gwag priodol.</p>

2.5 Arweiniad ar allbynnau isadeiledd

Diffinnir isadeiledd fel unrhyw brosiect sy'n seiliedig ar ddarparu asedau diriaethol. Bydd yr enghreifftiau'n cynnwys: darparu tir a wasanaethir, datblygu/ailldatblygu eiddo (masnachol, diwydiannol, hamdden, etc.), darparu isadeiledd adeiledig (trydan, cyfleustodau, etc.), gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig, etc. Mae'r allbynnau hyn yn darparu'r sail ar gyfer gweithgareddau busnes dilynol a fydd yn arwain at ganlyniadau cyflogaeth terfynol.

Dangosyddion isadeiledd

Dangosydd	Disgrifiad	Enghreifftiau
Tir llwyd wedi'i adfer/ddatblygu	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Ardaloedd o dir wedi'u trin a'u dod yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol (yn seiliedig ar hectarau) 	<p>I gynnwys tir diffaith, wedi'i halogi neu a ddatblygwyd yn wreiddiol a oedd yn cynnwys adeiledd sefydlog.</p> <p>Gallai enghreifftiau gynnwys trin safle diffaith i greu atyniad twristiaeth newydd, neu ddatblygu llithrffordd newydd o dir llwyd.</p>
Arwyneb llawr newydd neu wedi'i uwchraddio	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Ardal o eiddo a adeiladwyd o'r newydd, trwy wella safle neu a ailddatblygwyd o gyflwr diffaith ▶ Dylid rhoi gwybodaeth fanwl am y defnydd/ ddeiliadaeth arfaethedig ▶ Dylid gwahaniaethu rhwng eiddo a ddarperir at ddefnydd hyrwyddwr y prosiect ei hun a gweithgarwch masnachol 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys: darparu unedau busnes bach fel gweithdai creffttau, ailddatblygu adeilad fel bragdy at ddefnydd masnachol, etc.</p> <p>Dylid rhoi ystyriaeth i sut y bydd incwm masnachol yn cael ei ddefnyddio.</p>
Parth cyhoeddus wedi'i greu neu ei wella	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Ardal o barth cyhoeddus wedi'i thrin a'i hadfer i ddefnydd buddiol (yn seiliedig ar hectarau) ▶ Mewn perthynas â llwybrau troed, dylid darparu'r maint mewn metrau/ cilometrau 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys rhaglen gwella treflun, neu ddarparu maes parcio cysylltiedig.</p> <p>Gallai enghreifftiau gynnwys darparu 5km o lwybrau troed newydd neu wedi'u huwchraddio.</p>
Prosiectau diriaethol wedi'u cefnogi	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif syml o nifer y prosiectau a gefnogir 	<p>Mae gan "brosiect" y nodweddion a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● cyfres o dasgau wedi'u cynllunio o'r dechrau i'r diwedd ● wedi'i gyfyngu o ran amser, adnoddau a chanlyniadau gofynnol ● canlyniad diffiniedig a "deilliannau" ● terfynau amser ● cyllideb sy'n cyfyngu ar nifer y bobl, cyflenwadau a chyfalaf

2.6 Arweiniad ar allbynnau amgylcheddol

Bydd CCA yn cefnogi prosiectau sy'n cyflwyno canlyniadau cyflogaeth terfynol trwy gyflwyno allbynnau amgylcheddol.

Dangosyddion amgylcheddol

Dangosydd	Disgrifiad	Enghreifftiau
Prosiectau cludiant cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif syml o nifer y prosiectau ▶ Gwybodaeth bellach ar y math o brosiect sydd i'w ddarparu 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys: cefnogaeth ar gyfer prosiect bws hydrogen, darparu beiciau ar gyfer teithio canol tref, etc.</p> <p>Gallai fod yn briodol ystyried allbynnau cludiant cynaliadwy hefyd fel isgynnyrch darparu llwybrau beicio newydd.</p>
Prosiectau amddiffynfeydd llifogydd/ arfordirol	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif syml o nifer y prosiectau ▶ Gwybodaeth bellach ar y math o brosiect sydd i'w ddarparu ▶ Gwybodaeth am y rhan o'r arfordir sy'n cael ei hamddiffyn mewn metrau/cilometrau 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys: amddiffynfeydd arfordirol, morgloddiau, pontynau, etc.</p> <p>Gall fod yn briodol hefyd i ddarparu gwybodaeth am unrhyw dir y mae'r cynllun yn dod ag ef yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol.</p>
Prosiectau ynni adnewyddadwy	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif syml o nifer y prosiectau ▶ Gwybodaeth bellach ar y math o brosiect sydd i'w ddarparu ▶ Gwybodaeth am allbwn trydan (Kwh) i'w darparu ▶ Gwybodaeth am nifer y sefydliadau unigol sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy i'w darparu 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys: gwynt, ynni dŵr, biomàs, ynni'r llanw neu ynni'r haul.</p> <p>Gallai gynnwys prosiect fferm gwynt cymunedol neu brosiectau gwastraff i ynni.</p>

2.7 Arweiniad ar allbynnau adeiladu gallu

Un o allbynnau posib prosiectau wedi'i gefnogi gan CCA yw gwella gallu unigolion a mudiadau lleol, fel eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adfywio economaidd ac yn cyflwyno elfennau penodol y prosiect.

Gan hynny, rydym yn awyddus i ddeall y math o unigolion, mudiadau neu brosiectau cymunedol y mae prosiectau a ariennir gan CCA yn eu cefnogi.

Dangosyddion adeiladu gallu

Dangosydd	Disgrifiad	Enghreifftiau
Unigolion wedi'u cefnogi	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif syml o nifer yr unigolion wedi'u cefnogi ▶ Disgrifiwch y grwpiau targed allweddol a fydd yn elwa o'r prosiect. 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● perchnogion/rheolwyr busnesau ● trigolion lleol ● pobl ifanc ● pobl ddi-waith ● y gymuned leol yn gyffredinol
Mudiadau wed'u cefnogi	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif syml o nifer y mudiadau wedi'u cefnogi ▶ Disgrifiwch y grwpiau targed allweddol a fydd yn elwa o'r prosiect. 	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● busnesau preifat ● grwpiau cymunedol ● mudiadau sector cyhoeddus ● mudiadau trydydd sector
Prosiectau cymunedol wedi'u cefnogi	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyfrif syml o nifer y prosiectau a arweinir gan y gymuned wedi'u cefnogi ▶ Wedi'u diffinio fel trydydd sector, sector gwirfoddol, elusen, neu fudiad arall sydd â ffocws budd cymunedol 	<p>Mae gan "brosiect" y nodweddion a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● cyfres o dasgau wedi'u cynllunio o'r dechrau i'r diwedd ● wedi'i gyfyngu o ran amser, adnoddau a chanlyniadau gofynnol ● canlyniadau a "deilliannau" diffiniedig ● terfynau amser ● cyllideb sy'n cyfyngu ar nifer y bobl, cyflenwadau a chyfalaf

2.8 Arweiniad ar allbynnau cyd-gyllid

Er nad yw'n un o ofynion ffurfiol CCA, gall ymgeiswyr ddewis sicrhau cefnogaeth ychwanegol gan arianwyr, gan leihau'r gofynion ar y gyllideb CCA gyfyngedig trwy ariannu prosiectau ar y cyd. Byddai angen i hwn gael ei sicrhau erbyn y terfyn amser ymgeisio Cam 2. Bydd hyn yn caniatáu i ni gefnogi mwy o brosiectau ac estyn cyrhaeddiad CCA.

Gan hynny rydym yn ceisio mesur lefel a math unrhyw ariannu arall sydd i'w sicrhau ar gyfer y prosiect.

Dangosyddion cyd-gyllid

Dangosydd	Disgrifiad	Enghreifftiau
Cyllid sector preifat	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Y cyfanswm ariannu a ymrwymir i'r prosiect gan fudiadau sector preifat ▶ Ni ddylai gynnwys buddion mewn da - mae'n ymwneud ag ymrwymadau arian parod yn unig ▶ Dylid cofnodi cefnogaeth buddion mewn da ar wahân yn adran Costau'r Prosiect y cais 	<p>Wedi'i ddarparu fel cyfanswm a chan fudiadau unigol a fesul blwyddyn.</p> <p>Mae'n ofyniad bod unrhyw ariannu a drosolir wedi'i sicrhau erbyn y terfyn amser ymgeisio Cam 2.</p>
Cyllid sector cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Swm yr ariannu a ymrwymir i'r prosiect gan fudiadau sector cyhoeddus ▶ Ni ddylai gynnwys buddion mewn da - mae'n ymwneud ag ymrwymadau arian parod yn unig ▶ Dylid cofnodi cefnogaeth buddion mewn da ar wahân yn adran Costau'r Prosiect y cais 	<p>Wedi'i ddarparu fel cyfanswm a chan fudiadau unigol a fesul blwyddyn.</p> <p>Mae'n ofyniad bod unrhyw ariannu a drosolir wedi'i sicrhau erbyn y terfyn amser ymgeisio Cam 2.</p>
Cyllid trydydd sector	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Swm yr ariannu a ymrwymir i'r prosiect gan fudiadau trydydd sector ▶ Ni ddylai gynnwys buddion mewn da - mae'n ymwneud ag arian parod yn unig ▶ Dylid cofnodi cefnogaeth buddion mewn da ar wahân yn adran Costau'r Prosiect y cais 	<p>Wedi'i ddarparu fel cyfanswm a chan fudiadau unigol a fesul blwyddyn.</p> <p>Mae'n ofyniad bod unrhyw ariannu a drosolir wedi'i sicrhau erbyn y terfyn amser ymgeisio Cam 2.</p>

3. Canlyniadau CCA

Canlyniadau yw'r cam terfynol yn y model rhesymeg - ar gyfer CCA diffinnir y rhain fel cynnydd mewn cyflogaeth, wedi'i gyflawni o ganlyniad i'r allbynnau prosiect perthnasol, fel y trafodwyd yn Adran 2.

3.1 Cyflwyniad

Nod unigol y rhaglen CCA yw cyflawni canlyniadau cyflogaeth i helpu cymunedau arfordirol i brofi adfywio a thwf economaidd.

Gan hynny y dangosydd canlyniad unigol yw **cyflogaeth**.

At ddibenion CCA, ystyrir bod tri chanlyniad cyflogaeth yn berthnasol:

- swyddi uniongyrchol;
- swyddi anuniongyrchol; a
- swyddi wedi'u diogelu.

Ni ddylid cyfrif cyflogaeth adeiladu o fewn y cyfrifiadau creu swyddi ond dylid ei nodi yn y cais.

3.2 Swyddi wedi'u creu (uniongyrchol)

Diffinnir swyddi uniongyrchol fel y rhai sy'n cael eu creu fel effeithiau rownd gyntaf uniongyrchol y prosiect. Byddai enghreifftiau o swyddi uniongyrchol yn cynnwys:

- staff a gyflogir i weithio mewn atyniad ymwelwyr newydd;
- staff a gyflogir i weithio mewn cwmni gwasanaeth twristiaeth sy'n ehangu;
- staff a gyflogir i reoli cyflwyniad prosiect llwybr troed arfordirol; a
- staff a gyflogir i reoli cyfleuster harbwr newydd.

Mae'n rhaid i swyddi wedi'u creu fod:

- **yn newydd:** yn rhai nad ydynt wedi bodoli yn yr ardal leol neu gyda'r cyflogwr hwnnw cyn ymyrraeth y prosiect;
- **yn barhaol:** â chyfnod disgwylidig o flwyddyn o leiaf o'r pwynt pan gaiff eu creu;
- **â thâl:** â thâl ar gyfradd y farchnad ac o leiaf yr isafswm cyflog; ac yn
- **cyfwerth ac amser llawn:** o leiaf 30 awr yr wythnos gyda swyddi rhan-amser wedi'u trawsnewid i gyfwerth ag amser llawn (CaALI).

Dylid cyfrif swyddi tymhorol neu dros dro yn seiliedig ar eu CaALI. Er enghraifft, dylid cyfrif swydd dymhorol sy'n para am 3 mis bob blwyddyn fel 0.25 CaALI. I gael eu cyfrif dylai'r isafswm cyfnod cyflogaeth ar gyfer swyddi fod yn 1 mis.

Ni ddylid cyfrif staff presennol a neilltuir i reoli cyflwyniad y prosiect oni gellir dangos yn glir y byddai'r swydd yn cael ei cholli fel arall (gweler swyddi a ddiogelwyd).

Dylid cyfrif lleoliadau hyfforddi neu brentisiaethau fel swyddi dim ond os caiff yr unigolyn ei gyflogi ar gontract â thâl sy'n para am flwyddyn o leiaf a/neu os gwarantir swydd amser llawn ar ei gyfer ar ôl eu cwblhau. Mewn achosion pan nad oes gwarant o gyflogaeth dylid cofnodi'r rhain ar wahân fel lleoliadau hyfforddi neu brentisiaethau.

3.3 Swyddi wedi'u creu (anuniongyrchol)

Cydnabyddir y bydd gan y prosiectau a ariennir gan CCA y potensial i greu swyddi anuniongyrchol h.y. y rhai sy'n bodoli o ganlyniad i'r prosiect trwy effeithiau eilaidd.

Mae enghreifftiau o swyddi anuniongyrchol yn cynnwys:

- swyddi wedi'u creu trwy effeithiau cadwyn gyflenwi:
 - cyflogaeth gynyddol mewn gwestai/bwytai lleol o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal
 - cyflogaeth gynyddol mewn cyflenwyr lleol trwy gynnydd mewn pwrcasiadau gan y prosiect a gefnogir
 - cyflogaeth gynyddol mewn cyflenwyr lleol trwy bwrcasiadau ychwanegol gan ymwelwyr newydd mewn badau, ar droed, atyniadau, etc; a
- chyflogaeth newydd a gynhyrchir gan gwmnïau sy'n meddiannu eiddo a ddatblygwyd gan neu drwy'r prosiect (nid dim ond adleoli swyddi sydd eisoes yn bodoli).

I ddangos cyflogaeth anuniongyrchol dylai'r ymgeisydd ddangos sut mae'r rhain wedi'u cyfrifo, gan gynnwys y dystiolaeth a ddefnyddir i amcangyfrif canlyniadau.

Yn ogystal â hyn bydd yr un gofynion ag ar gyfer swyddi uniongyrchol yn berthnasol h.y. mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd y swyddi anuniongyrchol yn rhai newydd, parhaol, â thâl ac amser llawn (neu gyfwerth).

3.4 Swyddi wedi'u diogelu

Diffinnir swyddi wedi'u diogelu fel swyddi parhaol amser llawn â thâl sydd eisoes yn bodoli ac mewn perygl heb ymyrraeth gan y prosiect.

Diffinnir hyn fel:

- swyddi y rhagwelir y byddant yn cael eu colli o fewn cyfnod o flwyddyn; neu
- swyddi mewn sector neu leoliad sy'n profi dirywiad economaidd tymor hwy.

Mae swyddi wedi'u diogelu'n cael eu cyfrif os:

- rhagfynegir eu bod mewn perygl pan gymeradwyir y prosiect;
- byddant yn bodoli o hyd pan gaiff y prosiect ei fonitro; ac
- nad ydynt mewn perygl mwyach o fewn blwyddyn.

Yn ogystal â hyn bydd yr un gofynion ag ar gyfer swyddi uniongyrchol yn berthnasol h.y. mae'n rhaid i chi ddangos y bydd y swyddi wedi'u diogelu'n rhai parhaol, â thâl ac amser llawn (neu gyfwerth).

Hefyd, dylech ddarparu tystiolaeth neu sail resymegol ynglŷn â pham mae'r swyddi mewn perygl a pham y byddent yn peidio â bodoli heb y prosiect sy'n cael ei gefnogi.

3.5 Awgrymiadau ar gyfer mesur cyflogaeth

Mae'r atodiadau'n darparu dolenni i ddeunyddiau arweiniad ar ystod o bynciau perthnasol, gan gynnwys asesiad effaith economaidd. Mae'r adran hon yn darparu arweiniad ac awgrymiadau cyffredinol ar adnabod canlyniadau cyflogaeth.

Mae swyddi uniongyrchol yn gymharol hawdd i'w hadnabod:

- yn achos prosiect busnes, dylai'r cynllun busnes/achos busnes fod wedi adnabod nifer y staff y mae eu hangen i gyflwyno/rhedeg y prosiect
- yn achos prosiect ymwelwyr, dylai hyrwyddwr y prosiect fedru adnabod nifer y staff y mae eu hangen i reoli'r prosiect
- byddai hefyd yn briodol i ddefnyddio agwedd cynhyrchu refeniw y prosiect fel procsi ar gyfer y nifer o staff. Er enghraifft os yw prosiect yn derbyn £50,000 o incwm refeniw bob blwyddyn nid yw'n debygol y byddan nhw'n gallu talu am 5 aelod staff cyfwerth ag amser llawn

Mae cyflogaeth anuniongyrchol (er enghraifft swyddi wedi'u creu o ganlyniad i wariant ychwanegol gan dwristiaid) yn anoddach i'w mesur;

- mae hyn yn gysylltiedig â swyddi wedi'u creu o ganlyniad i'r prosiect
- gellir amcangyfrif swyddi twristiaeth trwy asesu'r cynnydd potensial yn nifer yr ymwelwyr a'r gwariant dilynol gan ymwelwyr a defnyddio cyfernodau i drosi hyn i swyddi.
- yn aml gall asiantaethau twristiaeth cenedlaethol ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol
- ar gyfer prosiectau diriaethol gallwch ddefnyddio dadansoddiad dwysedd arwynebedd llawr i amcangyfrif yr ystod o swyddi y gellir eu cynnwys o fewn maint penodol o ofod. Eto, mae asiantaethau cenedlaethol yn darparu'r cyfryw wybodaeth

Gall swyddi wedi'u diogelu fod yn anoddach i'w mesur:

- mae hyn yn gofyn am fewnbwn gan y busnes cyfredol (os yw'n breifat) neu fudiad sector cyhoeddus perthnasol

- ym mhob achos dylech geisio cyflwyno tystiolaeth megis dirywiad mewn gwerthiannau neu amodau marchnad anodd - mae angen i chi gyfiawnhau'r tybiaethau/ tystiolaeth sy'n cael eu cyflwyno
- mae dichonoldeb y prosiect yn hollbwysig - pan geir amodau marchnad anodd, mae'n hanfodol eich bod yn ystyried pam y bydd pethau'n wahanol yn y dyfodol - pa newidiadau ydych chi'n disgwyl a fydd yn golygu bod y prosiect yn ddichonol

Dangos cynladwyedd swyddi, er enghraifft:

- yn achos prosiect cyfalaf sy'n darparu llwybr troed arfordirol newydd, a fydd nifer yr ymwelwyr yn cael ei gynnal dros y tymor hwy ac felly yn parhau i gefnogi'r swyddi anuniongyrchol?
- yn achos prosiect refeniw sy'n ariannu swyddog marchnata a datblygu, sut bydd y swydd yn parhau i gael eu hariannu ar ôl i'r grant ddod i ben?

Defnyddio tystiolaeth o werthuso:

- defnyddio gwerthusiad o fathau tebyg o brosiectau i sefydlu meincnodau - er enghraifft os arweiniodd prosiect twristiaeth blaenorol at gost grynswth fesul swydd o £20,000, gallai fod yn brocsi defnyddiol ar gyfer prosiect tebyg newydd
- mae llawer o enghreifftiau o werthusiadau, er enghraifft bydd y gwerthusiad cenedlaethol o'r Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol (blaenorol) yn darparu man cychwyn defnyddiol
- gallai fod enghreifftiau o'ch mudiad neu bartner lleol arall yn cyflwyno prosiectau tebyg a allai ddarparu cyfarwyddyd defnyddiol.

Ym mhob achos dylech adnabod sut rydych wedi gwneud eich cyfrifiadau ar swyddi a'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r cais.

Mae'r nodyn arweiniad hwn yn darparu gwybodaeth gefndir gyffredinol - chi sy'n gyfrifol am ddatblygu eich ymagwedd a sylfaen dystiolaeth eich hun er mwyn tracio a mesur canlyniadau economaidd eich prosiect a rhoi manylion hyn yn eich cais.

Atodiad 1: Cyhoeddiadau defnyddiol

Yr Adran Busnes Arloesedd a Sgiliau Datblygu Economaidd

www.bis.gov.uk/policies/economic-development

Developing and Implementing Local Economic Development Strategies

www.web.worldbank.org/WBSITE/EXTERNAL/TOPICS/EXTURBANDEVELOPMENT/EXTLED/0,,contentMDK:20276637~menuPK:402646~pagePK:148956~piPK:216618~theSitePK:341139~isCURL:Y~isCURL:Y,00.html

Canllaw Gwella Datblygiad Economaidd: Gwasanaeth Gwella

<http://www.improvementservice.org.uk/economic-development-improvement-guide.html>

HMT Appraisal and Evaluation in Central Government [Green Book]

www.hm-treasury.gov.uk/data_greenbook_index.htm

Pecyn Offer Asesu Effaith [BIS]

www.bis.gov.uk/assets/biscore/better-regulation/docs/i/11-1112-impact-assessment-toolkit.pdf

Y Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol: Coastal Towns

www.publications.parliament.uk/pa/cm200607/cmselect/cmcomloc/351/351.pdf

England's Coastal Towns: Review of the issues, evidence base and research

https://www.researchgate.net/publication/265002460_ENGLAND'S_COASTAL_TOWNS_A_short_review_of_the_issues_evidence_base_and_research_needs_For_NCRA_Panel

Cynghrair Cymunedau'r Arfordir: Coastal Regeneration Handbook

www.coastalcommunities.co.uk/

www.coastalcommunities.co.uk/library/pdfs/coastal-regeneration-handbook.pdf

Economic Appraisal Guidance Handbook: Scottish Enterprise

www.scottish-enterprise.com/~/_media/SE/Resources/Documents/DEF/economic-appraisal-guidance-note.ashx

<https://www.dfpni.gov.uk/articles/what-economic-appraisal-and-when-it-required>

Fframwaith Gwerthuso Effaith: BIS

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/212318/11-1085-guidance-evaluating-interventions-on-business.pdf

Evaluations Online: Scottish Enterprise

www.evaluationsonline.org.uk/evaluations/Index.do

Canllaw Hunanwerthuso'r Gronfa Loteri Fawr

<https://www.biglotteryfund.org.uk/welsh/funding/funding-guidance/managing-your-funding/evaluation>

Atodiad 2: Ffynonellau Gwybodaeth Economaidd

Ystadegau Marchnadoedd Llafur/Proffiliau Ardal NOMIS

www.nomisweb.co.uk/default.asp

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Tablau Data

www.ons.gov.uk/ons/datasets-and-tables/index.html

www.ons.gov.uk/ons/browse-by-theme/index.html

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Adroddiadau Rhanbarthol

www.ons.gov.uk/ons/rel/subnational-labour/regional-labour-market-statistics/november-2013/stb-regional-labour-market-november-2013.html

Visit England

www.visitengland.org/insight-statistics/

Twristiaeth yng Nghymru

<http://gov.wales/statistics-and-research/?lang=cy>

Northern Ireland DETI

www.detini.gov.uk/deti-stats-index/tourism-statistics.htm

Cynghrair Cymunedau'r Arfordir

www.coastalcommunities.co.uk/

Scottish Enterprise

www.scottishenterprise.co.uk

Scottish Enterprise: Tourism

www.scottish-enterprise.com/industry-support/tourism

Highlands and Islands Enterprise: Tourism

www.hie.co.uk/growth-sectors/tourism/overview.html

Scottish Tourism Alliance

<http://scottishtourismalliance.co.uk>